Hawdd ei Ddeall

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Pam rydych chi'n gallu ymddiried yn y wefan yma

Mawrth 2026


Photosymbols®
Publisher Licence 403527247

# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **[Pam alla i ymddiried yn y wefan hon?]**




Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** bwrwpleidlais.cymru

**Ebost:** brhe@cdffc.llyw.cymru

**Ffôn:** 02920464819

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Pam rydych chi'n gallu ymddiried yn y wefan yma





Ni ydy **Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru**.



Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod etholiadau yng Nghymru yn cael eu rhedeg yn deg ac yn dda.



Etholiadau ydy eich cyfle i bleidleisio dros y bobl rydych chi eisiau i'ch cynrychioli.




Yn 2026 rydych chi'n gallu pleidleisio yn etholiad y Senedd. Dyma pan fyddwch chi'n pleidleisio dros y bobl rydych chi eisiau i redeg Cymru.



Ein gwaith ni ydy rhoi gwybodaeth onest, deg a dibynadwy i chi. I'ch helpu chi i bleidleisio mewn etholiadau.



Rydyn ni ar wahân i Lywodraeth Cymru, y Senedd a'r holl bleidiau gwleidyddol.



Mae plaid wleidyddol yn grŵp o bobl sy'n rhannu'r un syniadau am sut i redeg y wlad.



Dydyn ni ddim yn ffafrio unrhyw bleidiau gwleidyddol.



Rydyn ni’n rhoi gwybodaeth sy’n deg ac sydd ddim wedi ei seilio ar beth rydyn ni’n feddwl.



Mae’r wybodaeth ar y wefan yma yn cael ei wirio gan lawer o bobl. Mae’n dod o leoedd dibynadwy.



Mae pobl sy’n cynnal etholiadau yn eich ardal leol yn rhoi gwybodaeth i ni am:

- Gorsafoedd pleidleisio – lleoedd rydych chi’n mynd i bleidleisio.
- Y pleidiau gwleidyddol a’r ymgeiswyr rydych chi’n gallu pleidleisio drostyn nhw yn eich ardal.



Mae ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol yn gallu anfon crynodeb byr i ni am:

- Beth maen nhw’n sefyll amdano
- A beth maen nhw eisiau ei wneud.



Fe fyddwn ni’n rhoi hyn ar y wefan. Mae’n cael ei ysgrifennu gan y blaid wleidyddol neu’r ymgeisydd.




Fe fydd beth maen nhw’n ei ddweud yn seiliedig ar eu safbwyntiau a’u syniadau eu hunain.



Dydyn ni ddim yn newid beth maen nhw’n ei ddweud beth bynnag.